

# CYMUNEDOLI

## Cymuned o Gymunedau

2023

# Be ydi
## Cymunedoli Cyf?

Mae'r gair cymunedoli yn esbonio'i hun; ein cymunedau yn perchenogi a rheoli ein hadnoddau a'n llafur er budd ein cymunedau yn hytrach na'n cymunedau yn cael eu hecsploetio er budd eraill fel sydd wedi digwydd cyhyd yn hanes Cymru.

Mae Cymunedoli Cyf yn gyfrwng rhwydweithio a chydweithio arloesol a chyffrous rhwng mentrau cymunedol Gwynedd. Dechreuodd y cyfan fel cyfres o sgyrsiau anffurfiol yn ystod haf 2022 gan ddod i'r canlyniad bod angen i fentrau cymunedol ar draws Gwynedd sefydlu rhwydwaith i gefnogi ymdrechion ein gilydd, cryfhau'r achos dros gymunedoli ar draws y Sir, a chodi capasiti lleol.

Ym mis Mai 2023 ffurfiolwyd y rhwydwaith fel cwmni a menter gymunedol, sef Cymunedoli Cyf.



# Pwy ydi aelodau
## Cymunedoli Cyf?

Eisoes mae dros 26 o fentrau cymunedol yn aelodau o rwydwaith Cymunedoli Cyf ac y mae croeso i eraill ymuno.

Mae gweithgareddau'r mentrau yn amrywio o dafarndai cymunedol i gefnogi pobl mewn angen, o redeg gwestai a chanolfannau i redeg cynlluniau trafnidiaeth cymunedol ac o gynhyrchu ynni i feithrin arweinwyr cymunedol ein dyfodol.

# Cryfder ar y Cyd

Rydym, fel aelodau, wedi ein gwreiddio yn ein cymunedau, yn gwasanaethu ein cymunedau ac yn gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau hynny.

Amlygir manteision rhwydweithio eisoes drwy ymdrech i gasglu data gan 23 o'r Mentrau sy'n profi ein cryfder ar y cyd.

Mae'r ffigyrau hyn, wrth gwrs, tu hwnt i werth cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y mentrau cymunedol, yn ogystal â'r ffaith bod y mentrau hyn i gyd yn gweithredu a gweinyddu yn Gymraeg.

Cyfanswm trosiant o **£13.56m**

Cyflogi **215** rhan amser

**536** o wirfoddolwyr

Cyflogi **239** llawn amser

Asedau gwerth **£43.2m**



Nid mewn gwagle y ffurfiwyd Cymunedoli Cyf. Dysgwyd o brofiad Dolan, sef rhwydwaith sy'n hwyluso cydweithredu cynyddol rhwng Cwmni Bro Ffestiniog a mudiadau cymunedol yn nyffrynnoedd llechi Nantlle (Yr Orsaf) ac Ogwen (Partneriaeth Ogwen).

Mae Dolan yn cyd-weu agweddau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol gydag egwyddorion ac ymarfer yr economi sylfaenol a'r economi gylchol. Mae Cymunedoli Cyf yn rhannu'r un weledigaeth â model Dolan, ac yn rhannu'r un nodweddion creiddiol, fel a ganlyn;

- **Gweledigaeth arloesol.**
- **Mentergarwch.**
- **Cyd-gynhyrchu.**
- **Gweithredu fel catalydd i ddod a chyfranwyr ynghyd.**
- **Rhwydweithio mentrau.**
- **Rhannu adnoddau ymysg mentrau cymunedol gan arwain at enillion graddfa.**
- **Annibyniaeth cyllidol ar sail perchnogi asedau.**
- **Gweithredu ar sail ymchwil pwrpasol.**
- **Datblygiad cymunedol o'r bôn i'r brig.**
- **Trefniadaeth ddemocrataidd.**
- **Ymateb hyblyg i anghenion y gymuned.**
- **Hyrwyddo a hwyluso newid diwylliannol hunan gynhaliol.**

# Gweledigaeth Ehangach

Yn yr hir dymor, mae ysbrydoli cymunedau eraill i addasu a mabwysiadu hanfodion y model yn fater o gynnig patrwm ac esiampl, addysgu a dysgu a chyd-drafod.

Mae lledaeniad y model i gymunedau eraill yn golygu creu cysylltiadau rhwng cymunedau sy'n arwain at fanteision ar y cyd, megis rhannu gwybodaeth ac adnoddau.

Buasai lledaeniad y model ar draws Cymru gyfan yn trawsnewid y wlad ac y mae hyn yn cynnig cyfle i lywodraeth ganol a lleol yng Nghymru ddatblygu polisïau a chefnogaeth priodol er mwyn hyrwyddo'r model hwn o ddatblygiad cymunedol yn ehangach ledled y wlad.



# Ein Nod ac Amcanion

- Bod yn gyfrwng cyswllt rhwng mentrau cymunedol a modd i fentrau helpu'i gilydd.
- Adeiladu capasiti Gwynedd yn y sector gymunedol, ac o fewn y bobl i'w gwireddu.
- Mentora a hybu mentrau cymunedol sy'n bodoli a hyrwyddo rhai newydd.
- Datblygu, hybu a chyflwyno addysg a hyfforddiant ym maes datblygu cymunedol.
- Datblygu a hybu ymchwilio cymunedol.
- Darparu tystiolaeth o'r ymchwil, marchnata ac ennill cyhoeddusrwydd ar gyfer cymunedoli a datblygu cymunedol.
- Lledaenu'r model integredig a chyfannol o ddatblygu cymunedol.
- Lledaenu darlledu digidol cymunedol.
- Bod yn bwynt cyswllt gyda chynghorau, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac asiantaethau datblygiad.
- Gweithredu fel llais sy'n cyflwyno'r achos yn glir i Lywodraeth Cymru a Llywodraethau Lleol bod cymunedoli yn ffordd o greu cymunedau ffyniannus, gwydn a hunan-gynhaliol sy'n gydnaws gyda'n gwerthoedd fel cymunedau Cymreig.





# Dulliau Gweithredu

- Ceisio am grantiau ar gyfer rhedeg gweithgareddau Cymunedoli Cyf a helpu ceisiadau grant aelodau a datblygu syniadau masnachu a cyd-fasnachu.
- Sefydlu cronfa ariannol i'w rhedeg gan Cymunedoli Cyf.
- Gweithredu prosiectau traws-gymunedau.
- Hybu perchenogi asedau cymunedol; prynu adeiladau ac asedau eraill megis adnoddau sy'n cynhyrchu ynni yn ein cymunedau.
- Cyflwyno achos i drosglwyddo asedau i aelodau Cymunedoli Cyf.
- Cynnal prentisiaethau i feithrin arweinwyr mentrau cymunedol y dyfodol a chreu cyfleoedd i weithwyr ddatblygu fel rheolwyr.



# Be ydi arwyddocâd cymunedoli?

Mae cymunedoli, sef i gymuned berchenogi a rheoli adnoddau'r gymuned, yn fodd o gymdeithasoli a rheoli adnoddau yn lleol.

Trwy gydol ein hanes mae'r Cymry wedi, ac yn dal i, lafurio mewn diwydiannau megis glo, llechi, haearn, dur a thwristiaeth gan gynhyrchu cyfoeth sydd, i bob pwrpas, wedi diflannu o'r wlad yn syth i bocedi perchnogion allanol gan adael ein cymunedau ymysg y tlotaf yn Ewrop. Mae cadw'r budd a'i rannu o fewn ein cymunedau yn ffordd mwy cynaliadwy o'u datblygu - yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Dyma sydd mor gyffrous am Cymunedoli; mae mentrau a busnesau cymunedol yn cynnig model gwahanol o ddatblygu economaidd a chymunedol. A'r hyn sy'n ddeniadol iawn am y syniad yw fod pob ased sy'n cael ei drosglwyddo i berchnogaeth leol, a'r elw wneir o'r asedau hynny yn aros yn lleol ac yn creu cyfoeth parhaol i'n cymunedau ni am genedlaethau i ddod.

Drwy'r broses o gymunedoli elfennau sylweddol o'r economi mae gan gymunedau Gwynedd a Chymru botensial, o dipyn i beth, i brofi nad ydym yn rhy fach, rhy dlawd na rhy dwp i greu cymunedau cryf, cynaladwy a ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I wybod mwy neu i ddod yn rhan o'r rhwydwaith cysylltwch â:
**Cysylltu@Cymunedoli.Cymru**

# MENTRAU CYMUNEDOL SY'N AELODAU O CYMUNEDOLI CYF....



| MENTER | PRIF WEITHGAREDD | MANYLION CYSWLLT |
|---|---|---|
| **Antur Aelhaearn** | Cymunedol ac economaidd | **Llyr Ap Rhisiart** moelfrefawr@gmail.com |
| **Antur Nantlle** | Economaidd a chymunedol | **Robat Jones** robat@anturnantlle.com |
| **Antur Stiniog cyf.** | Twristiaeth cynaliadwy, datblygu economaidd a chymunedol | **Simon Williams a Ceri Cunnington** post@anturstiniog.com |
| **Antur Waunfawr** | Cymdeithasol addysgol a chymunedol | **Ellen Thirsk** Ellen.Thirsk@anturwaunfawr.cymru |
| **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** | Diwylliannol | **Miriam Williams** miriam@llenyddiaethcymru.org |
| **Cwmni Bro Ffestiniog** | Rhwydweithio mentrau | **Ceri Cunnington** Ceri.C@CwmniBro.Cymru |
| **Cwmni Nod Glas** | Cymunedol ac economaidd | **Arfon Hughes** arfonh@hotmail.co.uk |
| **Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)** | Ynni a newid hinsawdd | **Grant Peisley** Grant@deg.cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Dref Werdd** | Amgylcheddol | **Gwydion ap Wynn**<br>gwydion@drefwerdd.cymru |
| **Galeri, Caernarfon** | Diwylliannol ac economaidd | **Gwyn Roberts**<br>gwyn.roberts@galericaernarfon.com |
| **GwyrddNi** | Amgylcheddol | **Grant Peisley**<br>Grant@deg.cymru |
| **Llety Arall** | Economaidd, amgylcheddol a diwylliannol | **Menna Machreth**<br>post@lletyarall.org |
| **Menter Felinheli** | Economaidd a chymunedol | **Gwyn Roberts**<br>Gwynroberts.tyh@gmail.com |
| **Menter Iaith Gwynedd** | Iaith a diwylliant | **Iwan Hywel**<br>IwanHywel@gwynedd.llyw.cymru |
| **Menter Ty'n Llan, Llandwrog** | Tafarn gymunedol | **Caryl Lewis a Huw Jones**<br>Post@tynllan.cymru |
| **Menter Y Plu, Llanystumdwy** | Tafarn gymunedol | **Siôn Jones**<br>menteryplu@gmail.com |
| **Menter Y Tŵr, Pwllheli** | Economaidd a chymunedol | **Elin Hywel**<br>elin.hywel@gmail.com |
| **O Ddrws i Ddrws** | Trafnidiaeth gymunedol | **Wil Parry**<br>wil@oddrwsiddrws.cymru |
| **Partneriaeth Ogwen** | Cymunedol integredig | **Meleri Davies**<br>meleri@ogwen.org |



| | | |
|---|---|---|
| **Pengwern Cymunedol** | Gwesty cymunedol | **Gwynfor James**<br>pengwerncymunedol@gmail.com |
| **Plas Carmel** | Diwylliannol ac economaidd | **Mared Llywelyn**<br>plascarmel.cymru@gmail.com |
| **Seren** | Cymdeithasol, addysgol a chymunedol | **Angela Middleton Jones**<br>angelamj@serencyf.org |
| **Sylfaen Cymunedol** | Cymunedol, addysgol a chymdeithasol | **Val Williams**<br>val@sylfaencymunedol.org |
| **Tafarn yr Heliwr** | Tafarn Cymunedol | **Bleddyn Evans**<br>Bledd@live.co.uk |
| **Ymddiriedolaeth Ynys Enlli** | Amgylcheddol, cymunedol a diwylliannol | **Menna Jones**<br>datblygu@enlli.org |
| **Ynni Cymunedol Cymru** | Ynni cymunedol | **Dyfan Lewis**<br>Dyfan@communityenergywales.org.uk |
| **Ynni Llŷn** | Ynni cymunedol | **Wil Parry**<br>wil@ynnillyn.cymru |
| **Yr Orsaf, Penygroes** | Ynni Cymunedol | **Greta Jâms**<br>Post@yrorsaf.cymru |

CYMUNEDOLI

Cymuned o Gymunedau

Cysylltu@Cymunedoli.Cymru